Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Adolygiad Polisi: Ailstrwythuro'r Heddlu – Strwythurau Democrataidd

Mehefin 2006

Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Adroddiad

Mehefin 2006

I gael rhagor o gopïau caled o'r adroddiad hwn neu i gael fersiwn print bras, cysylltwch a:

Claire Griffiths
Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 02920 898034
E-bost: Claire.Griffiths@Wales.gsi.gov.uk
Gwefan: http://www.cymru.gov.uk

ISBN 0 7504 8856 5
Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Aelodaeth y Pwyllgor

Janice Gregory (Cadeirydd)	Ogwr
Mick Bates	Sir Drefaldwyn
Edwina Hart (Gweinidog)	Gwyr
Mark Isherwood	Gogledd Cymru
Laura Anne Jones	Dwyrain De Cymru
Huw Lewis	Merthyr Tudful a Rhymni
Sandy Mewies	Delyn
Leanne Wood	Canol De Cymru

Cynnwys

Pennod 1	Cyflwyniad a Chefndir
Pennod 2	Ystyriaethau'r Pwyllgor
Pennod 3	Casgliadau ac Argymhellion
Atodiad 1	Casgliadau ac Argymhellion y Pwyllgor yng nghyswllt *Closing the Gap*
Atodiad 2	Llythyr Ymgynghori
Atodiad 3	Tystiolaeth ysgrifenedig a dderbyniwyd yn ymateb i'r broses ymgynghori
Atodiad 4	Rhestr o'r cyflwyniadau llafar
Atodiad 5	Datganiadau ysgrifenedig a dderbyniwyd i ategu'r dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor
Atodiad 6	Trawsgrifiad o'r Dystiolaeth Lafar

Y PWYLLGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO

ADOLYGIAD POLISI

AILSTRWYTHURO'R HEDDLU – STRWYTHURAU DEMOCRATAIDD

PENNOD 1

CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Ym mis Medi 2005, gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ystyried penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, bryd hynny, i gymeradwyo casgliadau ac argymhellion adroddiad *Closing the Gap* ac i baratoi adroddiad ar y goblygiadau i Gymru. Er mwyn bodloni gofynion plismona Lefel 2 drwy Gymru a Lloegr, daeth yr adroddiad hwnnw i'r casgliad fod angen ailstrwythuro'r heddluoedd presennol i greu heddluoedd ag o leiaf 4000 o swyddogion neu 6000 o staff i gyd. Yng Nghymru, yr unig ddewis, mewn gwirionedd, a fyddai'n bodloni'r maen prawf hwn, a maen prawf arall y Swyddfa Gymreig yn ymwneud â hunaniaeth hanesyddol a rhanbarthol, fyddai creu un heddlu strategol yng Nghymru.

1.1 Ystyriaethau'r Pwyllgor yng nghyswllt *Closing the Gap*

Wrth ystyried yr adroddiad hwn, aeth y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ati i gynnal ymgynghoriad ysgrifenedig eang a chafodd 33 ymateb. Derbyniodd dystiolaeth ar lafar hefyd o 10 ffynhonnell arall. Yn ei hanfod, roedd y dystiolaeth a dderbyniwyd yn nodi:

- na chafwyd digon o amser i ymgynghori;
- roedd y dewisiadau ar gyfer y newidiadau'n rhy gyfyng ac yng nghyd-destun Cymru, dim ond un dewis oedd;
- roedd angen egluro'r goblygiadau ariannol yn well;
- roedd perygl y byddai'r ailstrwythuro a'r pwyslais ychwanegol ar blismona Lefel 2 yn niweidiol i blismona cymunedol;
- roedd angen rhoi mwy o ystyriaeth i'r effaith y byddai'r ailstrwythuro'n ei gael ar atebolrwydd lleol a'r angen i ddiogelu swyddi yn y gwasanaeth newydd.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd angen ailstrwythuro, ac roeddynt yn awyddus i gadw'r sefyllfa fel yr oedd. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn y sylwadau a gynigiwyd gan awdurdodau a chyrff yng Ngogledd Cymru.

1.2 Adroddiad y Pwyllgor

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ym mis Tachwedd 2005. Mae ei gasgliadau a'i argymhellion i'w gweld yn Atodiad 1. Wrth ddod i'w gasgliadau, roedd y pwyllgor yn argyhoeddedig y dylid cynnwys Dimensiwn Cymreig mewn unrhyw broses o ailstrwythuro'r Heddlu yng Nghymru. Mae'r

gwahaniaethau hanesyddol, daearyddol a diwylliannol rhwng Cymru a Lloegr yn golygu nad yw'r hyn sy'n addas i awdurdodau Lloegr bob amser yn addas dros y ffin. Cytunodd y Pwyllgor hefyd

- mai'r Swyddfa Gartref ddylai ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i'r ailstrwythuro;
- dylid parhau i roi blaenoriaeth i blismona cymunedol;
- fod atebolrwydd lleol a diogelu swyddi o'r pwys mwyaf,

1.3 Ystyried adroddiad y Pwyllgor

Ystyriwyd yr adroddiad yng Nghyfarfod Lawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 6 Rhagfyr 2005. Cafodd yr adroddiad ei gymeradwyo yn y Cyfarfod Llawn a chytunwyd y dylid ai anfon ymlaen at yr Ysgrifennydd Cartref. Daeth y Cyfarfod Llawn hefyd i'r casgliad y byddai'n well pe bai'r arian y bwriadwyd ei wario ar ailstrwythuro'r heddlu yng Nghymru yn cael ei wario ar wasanaethau rheng flaen, roedd yn feirniadol o'r ffaith bod yr Ysgrifennydd Cartref wedi cynnal ymgynghoriad brysiog ac arwynebol a chytunodd na ddylai unrhyw benderfyniad i ailstrwythuro'r heddlu yng Nghymru o ganlyniad i'r adroddiad *Closing the Gap*, fod yn niweidiol i'r posibilrwydd o drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros heddluoedd Cymru o'r Ysgrifennydd Cartref i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

1.4 Ymateb y Swyddfa Gartref.

Ymateb yr Ysgrifennydd Cartref i Adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ac i'r ymgynghoriad cyffredinol a gynhaliwyd ag Awdurdodau'r Heddlu a'r Prif Gwnstabliaid oedd cyhoeddi ei fod o blaid uno'r pedwar heddlu presennol yng Nghymru a chreu un Heddlu Strategol ar gyfer Cymru Gyfan. Cyhoeddodd ei fwriad i gyhoeddi deddfwriaeth ddrafft at y diben hwnnw.

Cytunodd yr Ysgrifennydd Cartref, fodd bynnag, y byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddylanwadu yn y dyfodol ar faterion yn ymwneud ag atebolrwydd rhanbarthol a lleol a fyddai'n sylfaen i'r heddlu newydd. Er mwyn hybu'r broses hon, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliant i *Fesur yr Heddlu a Chyfiawnder* sy'n caniatáu penodi Diprwy Prif Gwnstabliaid ychwanegol yng Nghymru, a fydd yn arwain at lywodraethu rhanbarthol o fewn yr un Heddlu Strategol ar gyfer Cymru Gyfan.

Cyfeiriodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y mater unwaith eto at y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i gasglu tystiolaeth a pharatoi adroddiad ar y Strwythurau Democrataidd mwyaf addas ar gyfer y gofynion Cymru. Mae darganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor wedi'u hamlinellu yn y penodau a ganlyn ac maent wedi'i seilio ar y dystiolaeth a gawsom ac sydd wedi'i nodi yn Atodiadau 3, 5, a 6.

Pennod 2

YSTYRIAETHAU'R PWYLLGOR

2.1 Ymgynghori

Wrth ymateb i gais y Gweinidog i'r Pwyllgor ystyried a gwneud argymhellion ynghylch yr atebolrwydd rhanbarthol a lleol a ddylai fod yn sylfaen i Heddlu Strategol Cymru Gyfan, aeth y Pwyllgor ati i gynnal ymgynghoriad ysgrifenedig. Gofynnwyd i rai partïon penodol a oedd â diddordeb i roi sylwadau ar y dewisiadau a'r ystyriaethau o ran atebolrwydd rhanbarthol. Mae copi o'r llythyr ymgynghori yn Atodiad 2 a rhestr o'r rheini yr ymgynghorwyd yn ysgrifenedig â nhw yn Atodiad 3. Cafwyd ugain ymateb, gan gynnwys deg gan awdurdodau lleol yng Nghymru a'r tri Awdurdod Tân ac Achub. Mae copïau o'r ymatebion yn Atodiad 5.

Yn ogystal â'r cyflwyniadau ysgrifenedig, gwahoddodd y Pwyllgor nifer o gyrff allweddol i ymddangos o'u blaen mewn sesiwn lafar hefyd. Mae'r cyrff hyn wedi'u rhestru yn Atodiad 4. Mae'r dystiolaeth lafar i ategu'u cyflwyniadau yn Atodiad 5. Mae trawsgrifiad o'r dystiolaeth lafar yn Atodiad 6.

2.2 Materion a Godwyd

Dyma'r prif bryderon:

- Er gwaethaf datganiad yr Ysgrifennydd Cartref yn nodi ei fwriad i gyflwyno deddfwriaeth i uno'r pedwar heddlu presennol yng Nghymru, cadarnhaodd nifer o gyrff unwaith eto eu bod yn gwrthwynebu creu un Heddlu Strategol ar gyfer Cymru Gyfan.
- Roedd yr ymgynghoriad wedi bod yn llawer rhy frysiog ac roedd llawer o'r farn bod yr amserlen a neilltuwyd ar gyfer gweithredu'r cynllun yn rhy gyfyng.
- Roedd yr ansicrwydd ynghylch ariannu'r broses uno arfaethedig hefyd yn peri cryn bryder yn ogystal â'r posibilrwydd y byddai'r ailstrwythuro'n arwain at golli swyddi a fyddai'n gostus ac yn annerbyniol yn gymdeithasol.
- Roedd pryder hefyd y byddai atebolrwydd lleol yn dioddef wrth uno'r heddluoedd, yn enwedig pe bai'r Bwrdd ar gyfer yr Awdurdod newydd ar gyfer Cymru Gyfan yn cael ei gyfyngu i ddeuddeg cynrychiolydd yn unig, fel yr awgrymwyd. Credai llawer y dylid cynnwys y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru mewn strwythur o'r fath ac y dylid rhoi ystyriaeth i atebolrwydd democrataidd ar lefel ranbarthol a hyd yn oed ar lefel Unedau Gorchymyn Sylfaenol.

Roedd pryder hefyd ynghylch:

- yr effaith ar braeseptau;

- goresgyn rhwystrau naturiol yn ymwneud â maint a daearyddiaeth Cymru;
- datblygu'r Gymraeg;
- rhannu ffiniau cyffredin â'r gwasanaethau brys a chyhoeddus eraill datganoli gwasanaethau'r heddlu yng Nghymru i Gynulliad Cymru
- gallu'r Swyddfa Gartref i gyflwyno'r newidiadau

Caiff y materion hyn i gyd eu trafod yn y paragraffau a ganlyn.

2.3 Ystyried y Materion a Godwyd

Ni Ddylid Parhau â'r Broses Uno

Nid yw'r awgrym hwn yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor

Mae'r Amser a Neilltuwyd ar gyfer y Cyfnod Ymgynghori yn Annigonol

Dyma farn gyffredinol yr holl ymatebwyr bron yn ogystal â'r rheini a roddodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor. Ni chafodd y feirniadaeth ei chyfyngu i'r rheini a oedd yn gwrthwynebu'r uno arfaethedig. Y farn gyffredinol oedd bod yr holl broses yn cael ei rhuthro ac nad oedd digon o wybodaeth ar gael. Tynnwyd sylw at y ffaith fod yr amserlen yn golygu na fyddai cymunedau a heddluoedd lleol yn debygol o gael mynegi barn ar y ffordd y dylai'r heddlu ddatblygu'n lleol. Awgrymodd Cyngor Sir Penfro y byddai'r diffyg cydweithrediad o du'r Llywodraeth yn creu anawsterau i awdurdodau lleol wrth iddynt geisio cyflwyno agenda 'Creu'r Cysylltiadau'. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Prif Gwnstabliaid Cymru eu bod yn amau a fyddai'n bosibl gweithredu'r newidiadau arfaethedig o fewn yr amserlen a nodwyd ac maent wedi cyfarfod â Gweinidog yr Heddlu yn y Swyddfa Gartref i drafod y posibilrwydd o ymestyn yr amserlen. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Cartref i ohirio'r cynlluniau i ailstrwythuro heddluoedd Cymru.

Cyllid

Roedd y gwendidau yn nadl ariannol y Swyddfa Gartref yn peri pryder gan fod yr amcangyfrifon o ran costau sefydlu'r drefn newydd yn rhy isel a'r amcangyfrifon o ran yr arbedion ariannol blynyddol yn rhy uchel. Pwysleisiwyd bod angen ariannu'r cynigion yn llawn gan y byddai unrhyw beth arall yn golygu codi praeseptiau ychwanegol ar awdurdodau lleol i dalu am y costau ychwanegol. Byddai hyn, yn ei dro, yn golygu bod llai o arian ar gael ar gyfer gwasanaethau brys a gwasanaethau hanfodol eraill yr awdurdodau lleol. Credai'r ymatebwyr fod angen digon o arian cyfalaf a refeniw ar gyfer yr uno i sicrhau na fydd angen i bobl dalu rhagor o dreth gyngor. Nodwyd hefyd mai'r Swyddfa Gartref ddylai ddarparu'r holl arian refeniw i dalu costau benthyca ac ad-dalu pe bai angen i'r heddlu newydd fenthyca arian i dalu costau sefydlu a chostau refeniw fel taliadau colli swydd.

Yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd CLlLC, Awdurdodau'r Heddlu a'r Prif Gwnstabliaid eu bod yn pryderu cryn dipyn nad oeddynt wedi cael

gwybodaeth fanwl am y ffordd y byddai costau'r broses ailstrwythuro'n cael eu talu, ac nad oeddynt wedi cael sicrwydd nad y cyhoedd fyddai'n gorfod ysgwyddo'r costau hyn ar ffurf cynnydd yn y dreth gyngor. Roedd Prif Gwnstabliaid Cymru sydd, hyd yn hyn, wedi bod o blaid cynigion y Swyddfa Gartref, wedi ysgrifennu at y Swyddfa Gartref yn bygwth gwrthwynebu'r cynigion os na fyddant yn delio â'r mater hwn. Bydd datganiad y Swyddfa Gartref, y cyfeiriwyd ato eisoes yn yr adroddiad hwn, yn ymdrin â hyn.

Pe bai un heddlu'n cael ei ffurfio ar gyfer Cymru gyfan, honno fyddai'r heddlu teneuaf o ran ei boblogaeth o holl heddluoedd Cymru a Lloegr. O gofio'r ffordd y mae fformiwlâu ariannu'r Swyddfa Gymreig yn gweithio o safbwynt gwasanaeth yr heddlu, bydd hyn, bron yn sicr, yn andwyol iawn i Heddlu unedig Cymru.

Awdurdodau Rhanbarthol

Y teimlad cyffredinol oedd bod yn rhaid i ardaloedd lleol gael llais cryf yn nyfodol plismona yng Nghymru. At y diben hwn, dylid creu Haenau Rhanbarthol - dan arweiniad Dirprwy Brif Gwnstabliaid o bosibl. Gallai nifer yr Heddluoedd Rhanbarthol adlewyrchu strwythur presennol yr heddluoedd yng Nghymru, neu gellid eu hailgyflunio i gyd-ffinio â'r gwasanaethau diogelu a'r gwasanaethau brys eraill.

Ar ôl ailstrwythuro heddluoedd Cymru, gellid manteisio ar y cyfle i greu heddluoedd rhanbarthol, adlinio Partneriaethau Cydnerth Lleol i gyd-fynd â ffiniau Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru ac ardaloedd gweinyddu rhanbarthol Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

Atebolrwydd lleol

Roedd pryder penodol ynghylch yr awgrym yn yr adroddiad "*Closing the Gap*" y dylai Awdurdod yr Heddlu gynnwys dim ond deuddeg aelod. Pwysleisiodd rhai awdurdodau lleol pa mor bwysig oedd i Awdurdod yr Heddlu gynnwys aelodau a benodir gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. (Awgrymodd Cyngor Sir Ddinbych y dylid cyfyngu'r aelodaeth i'r rhain yn unig) gydag o leiaf un aelod yn cael ei benodi gan bob cyngor. Awgrymwyd hefyd y dylid creu "pwyllgorau goruchwylio" ar lefel Uned Gorchymyn Sylfaenol i ystyried a chraffu ar faterion yn ymwneud â Phlismona Cymunedol. Gallai cynrychiolwyr y Cynghorau Cymuned fod yn aelodau o'r pwyllgorau hyn. Os caiff strwythur rhanbarthol ei gyflwyno, dylai'r rhain hefyd cael cefnogaeth Byrddau Lleol a ddylai gynnwys cynrychiolwyr etholedig.

Staffio

Er y byddai uno heddluoedd Cymru yn rhoi cyfle i wella effeithlonrwydd a chreu cyfundrefn fwy cost effeithiol drwy leihau achosion o ddyblygu adnoddau, byddai ailstrwythuro'n arwain at golli swyddi – yn enwedig ymhlith staff sifil. Roedd pryder hefyd y byddai unrhyw benderfyniad i adleoli swyddogion yn andwyol i blismona lleol gan y byddai unedau ymateb

ymhellach oddi wrth ei gilydd. Roedd pryder bod tuedd i ddefnyddio Swyddogion Diogelwch Cymunedol yn lle Swyddogion Heddlu. Fel y nododd cynrychiolwyr Ffederasiwn yr Heddlu yn eu tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, roedd yn hanfodol gwybod sut yr oedd y bwlch ar lefel 2 yn mynd i gael ei lenwi ac a fyddai angen ailgyfeirio adnoddau o rywle arall i'w lenwi. Wrth lenwi'r bwlch ar lefel 2, dylid gofalu rhag peidio â chreu bwlch ar lefel 1 (materion lleol). Mae'n debygol mai Swyddogion Diogelwch Cymunedol fyddai'n cael eu defnyddio i lenwi'r bwlch. Mae Swyddogion Diogelwch Cymunedol yn rhatach i'w cyflogi, ond nid oes ganddynt yr un pwerau â swyddogion heddlu traddodiadol a does dim yn eu rhwystro nhw rhag gweithredu'n ddiwydiannol.

Praeseptiau

Mae praeseptiau'r heddlu yng Nghymru yn amrywio o £158, sef yr uchaf, yn Awdurdod Gogledd Cymru i £120, sef yr isaf, yn Ne Cymru ar gyfer eiddo Band D. Clywsom dystiolaeth yn awgrymu bod angen cysoni'r praeseptiau i sicrhau bod cyfran cyllid yr heddlu sy'n dod o'r dreth gyngor yn cael ei rhannu'n deg ar draws Gymru. Roedd De Cymru yn pryderu y byddai cysoni'n arwain at gynnydd i drethdalwyr yr ardal tra bo Gogledd Cymru yn pryderu y byddai cefnogaeth gyhoeddus i bennu praeseptiau uwch ar gyfer yr heddlu yn cael ei danseilio gan amharodrwydd i wneud yr un fath mewn ardaloedd eraill. Os yw'r praeseptau'n mynd i gael eu cysoni, rhaid gofyn a ddylid gwneud hynny mewn un cam neu drwy drefniadau trosiannol dros gyfnod.

Maint a Daearyddiaeth Cymru

Roedd pryder y byddai daearyddiaeth a rhwydwaith ffyrdd Cymru yn llesteirio'r heddlu unedig arfaethedig. Cafwyd awgrym bod gweithwyr canolfannau galwadau'r gwasanaethau brys wedi cael trafferthion yn dilyn y penderfyniad i ganoli'r gwasanaethau cymorth. Mae'n bosibl y bydd yr anawsterau hyn yn gwaethygu wrth ymestyn y gadwyn gyfathrebu hon ymhellach. Roedd cyrff yng Ngogledd Cymru yn dadlau bod cysylltiad naturiol rhwng yr ardal a Gogledd–orllewin Lloegr. Ar y llaw arall, byddai rhannu'r wlad a grwpio rhanbarthau'r heddlu ag ardaloedd cyfagos yn Lloegr yn niweidiol i hunaniaeth Cymru ac i gynnydd economaidd a chymdeithasol.

Roedd nifer o gyrff yn pryderu y byddai Gogledd Cymru dan anfantais pe bai pencadlys yr Awdurdod Strategol unedig newydd yn cael ei leoli yn y De. Pwysleisiwyd na ddylid rhagdybio ble y byddai Pencadlys Heddlu Cymru Gyfan yn cael ei leoli.

Y Gymraeg

Byddai angen i'r Heddlu Strategol newydd gynhyrchu Cynllun Iaith Gymraeg statudol. At hyn, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi awgrymu y dylid penodi hyrwyddwyr ar bob lefel i hybu'r iaith. Maent hefyd wedi awgrymu y dylai meddalwedd fod ar gael i'w gwneud yn haws darparu gwasanaethau Cymraeg. Hefyd, dylai bod rheidrwydd ar y Swyddfa Gartref ac Arolygiaeth yr Heddlu i fonitro safon y gwasanaethau Cymraeg a gaiff eu darparu gan heddluoedd Cymru.

Ffiniau cyffredin

Cafwyd awgrym fod plismona yng Nghymru yn dioddef ar hyn o bryd gan nad yw awdurdodau'r heddlu a chyrff cyhoeddus eraill yn cyd-ffinio. Gallai'r penderfyniad i greu Heddlu Cenedlaethol fod yn gam pwysig tuag at greu ffiniau rhesymegol ar gyfer gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi dweud bod y ffaith eu bod yn rhannu ffiniau cyffredin â Heddlu Gogledd Cymru wedi hybu effeithiolwyd nifer o fentrau cydweithredol rhwng y gwasanaethau. Gallai strwythur rhanbarthol fod yn gyfle i ddatblygu cydweithredu pellach drwy Gymru. Mae'r patrwm a gynigir gan yr Awdurdod Tân Cyfunol yng Nghymru wedi'i argymell fel dull llwyddiannus o lywodraethu cydweithredol sy'n sicrhau bod y rheini sy'n gyfrifol am benderfyniadau yn atebol i'r cyhoedd drwy ddefnyddio'r prosesau democrataidd presennol. Pwysleisiwyd llwyddiant y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r Partneriaethau Cydnerth Lleol a'r cysylltiadau a grëwyd ers sefydlu'r Uned Gorchymyn Sylfaenol. Gellid adeiladu ar y rhain.

Pwysleisiodd Gwasanaeth Llysoedd ei Mawrhydi a'r Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol bod angen sicrhau y gellir adeiladu ar y manteision a ddaeth i'r amlwg yn sgil creu ffiniau cyffredin a gweithio mewn partneriaeth â'r llysoedd a'r asiantaethau cyfiawnder troseddol.

Diffygion y Swyddfa Gartref

Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Awdurdodau Heddlu Cymru a Phrif Gwnstabliaid Cymru yn unfryd yn eu beirniadaeth ar y Swyddfa Gartref yn ystod yr holl broses ymgynghori. Nid oedd digon o wybodaeth ar gael i fedru pwyso a mesur y dadleuon, roedd yr amserlenni'n afresymol a doedd y dimensiwn Cymreig ddim wedi'i ystyried. Ymddengys nad oedd digon o wybodaeth na digon o sylw wedi'i roi i effaith ariannol yr uno arfaethedig ac roedd hyn yn arbennig o rwystredig, cymaint felly, fel bo amheuaeth wirioneddol ynghylch gallu'r Adran Gartref i roi'r cynllun ar waith.

Datganoli Cyfrifoldeb dros Wasanaethau'r Heddlu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'n bosibl bod yr anfodlonrwydd â'r ffordd y cafodd yr uno arfaethedig ei drin gan y Swyddfa Gartref wedi cyfrannu at ennyn diddordeb mewn datganoli cyfrifoldeb dros wasanaethau'r Heddlu yng Nghymru i'r Cynulliad Cenedlaethol. Un farn oedd y dylid gohirio unrhyw drafodaethau ynghylch ailstrwythuro nes y trosglwyddir y cyfrifoldeb hwn.

PENNOD 3

CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

3.1 Y Broses Ymgynghori a'r Amserlen ar gyfer Gweithredu'r Broses Ailstrwythuro

Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a gawsant gan gyrff ac awdurdodau unigol ynghyd â CLlLC, Awdurdodau Heddlu Cymru a Phrif Gwnstabliaid Cymru, a oedd i gyd yn awgrymu bod yr amserlen yn afrealistig. Rydym yn croesawu cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Cartref ar 19 Mehefin fod y cynlluniau i greu un heddlu ar gyfer Cymru Gyfan wedi'u gohirio, sy'n golygu na fydd yn bosibl uno'r heddluoedd ym mis Ebrill 2007.

Rydym yn argymell y:

- Dylid gohirio'r amserlen ar gyfer gweithredu unrhyw newidiadau i heddluoedd Cymru am ddeuddeg mis o leiaf;
- Dylid defnyddio'r amser hwnnw i ymgynghori'n eang ac yn fanwl ar hyd a lled Cymru er mwyn asesu holl oblygiadau'r uno arfaethedig

3.2 Cyllid

Yn ein hadroddiad blaenorol, daethom i'r casgliad mai'r Swyddfa Gartref ddylai ysgwyddo holl gostau'r ailstrwythuro ac ni ddylid rhoi unrhyw faich ychwanegol ar drethdalwyr Cymru drwy gynyddu'r dreth gyngor. Rydym yn glynu'n gryf wrth y safbwynt hwn a chan hynny, rydym yn argymell:

- Y dylid cynnal asesiad ariannol manwl o'r costau ac archwilio'r trefniadau ariannu yn ystod y cyfnod ymgynghori estynedig;
- Ffynhonnell annibynnol ddylai gynnal yr asesiad ariannol a'r gwaith archwilio.

3.3 Awdurdodau Heddlu Rhanbarthol ac Atebolrwydd Lleol

Dyma, i raddau helaeth, yw hanfod yr holl ymarferiad. Cawsom dystiolaeth gan y Prif Gwnstabliaid ac Awdurdodau Heddlu Cymru y dylid cadw strwythur rhanbarthol o fewn Heddlu Cymru Gyfan. Roeddynt hwy ac eraill yn allweddol yn y broses o sicrhau newidiadau i Fesur yr Heddlu a Chyfiawnder i ganiatáu penodi Dirprwy Brif Gwnstabliaid yng Nghymru.

Gan hynny, rydym yn argymell y:

- Dylai heddluoedd rhanbarthol gynorthwyo unrhyw heddlu ar gyfer Cymru gyfan a dylid sicrhau atebolrwydd lleol. Gellid archwilio'r manylion yn llawn yn ystod y cyfnod ymgynghori estynedig;
- Dylid ystyried strwythurau rhanbarthol presennol gwasanaethau cysylltiedig os penderfynir creu strwythur rhanbarthol ar gyfer Heddlu Cymru Gyfan;
- Dylid ystyried modelau eraill, fel yr awgrymir isod:
- Ffiniau cyffredin drwy Gymru yn seiliedig efallai ar fodel y gwasanaeth tân presennol
- Yn seiliedig ar yr heddluoedd presennol
- Yn seiliedig ar ffiniau rhanbarthol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Dylid sefydlu Pwyllgor Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ar lefel Unedau Gorchymyn Sylfaenol

- Dylai'r Gwasanaeth Llysoedd, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Prif Gwnstabliaid, Cymdeithas Uwcharolygwyr yr Heddlu, Ffederasiwn yr Heddlu gael eu cynrychioli ar yr Awdurdod Strategol, ynghyd â chynrychiolwyr etholedig gan gynnwys cynghorwyr tref a chymuned
- Gallai Byrddau'r Heddluoedd Rhanbarthol (os cânt eu creu) gyfrannu at yr Awdurdod ar gyfer Cymru Gyfan er mwyn lleihau biwrocratiaeth a chreu cyn lleied o aflonyddwch â phosibl

3.4 Staffio

Rhaid i lefelau staffio'r Heddlu fod o leiaf cystal â lefel y gwasanaeth presennol i'r cyhoedd neu dylai ragori ar y lefelau presennol. Mae'r Pwyllgor yn cadarnhau'r safbwynt y dylid diogelu pwerau presennol swyddogion heddlu ac nid yw am i Swyddogion Cymorth Cymunedol gael eu defnyddio yn lle swyddogion heddlu. Yn ein hadroddiad blaenorol, nodwyd ein bod yn cytuno â'r farn y byddai ailstrwythuro'r heddlu'n gyfle i hyrwyddo a gwella gwaith staff heddlu sifil ac rydym yn awyddus i ail-bwysleisio hyn.

Rydym yn argymell:

- Dros y 12 mis nesaf, y dylid archwilio ac egluro swyddogaethau swyddogion heddlu, swyddogion cymorth cymunedol, staff sifil a wardeniaid cymdogaeth yn drylwyr;
- Y dylid defnyddio'r cyfnod ymgynghori estynedig i sicrhau bod trefniadau staffio'r Heddlu newydd ar gyfer Cymru Gyfan yn ei alluogi i weithredu yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau bosibl i gwsmeriaid.

3.5 Praeseptau

Rydym yn argymell y:

- Dylid cysoni'r praeseptau
- Dylid gwneud hynny drwy broses drosiannol yn hytrach na thrwy wneud newidiadau ar unwaith ac ni ddylid gwneud hynny ar draul safon y gwasanaethau a gynigir

3.6 Maint a Daearyddiaeth Cymru

Maint a daearyddiaeth Cymru yw un o'r prif resymau dros awgrymu y dylai'r genedl gael ei phlismona'n rhanbarthol. Hyd yn oed os ffurfir Heddlu ar gyfer Cymru Gyfan bydd angen parhau i gydweithredu'n agos â'r heddluoedd priodol dros y ffin â Lloegr.

Yn ei adroddiad blaenorol, un o argymhellion y Pwyllgor oedd y dylai unrhyw bencadlys ar gyfer Awdurdod Strategol ar gyfer Cymru Gyfan fod yng Ngogledd Cymru. Mae'r Pwyllgor am ail-bwysleisio'r pwynt hwn.

3.7 Y Gymraeg

Yn ôl y dystiolaeth a gawsom yn ymwneud â'r Gymraeg, ymddengys nad yw'r Swyddfa Gartref wedi cydnabod ei harwyddocâd. Rydym yn argymell y:

- Dylid darparu meddalwedd Cymraeg a'r Swyddfa Gartref ddylai ariannu hynny'n llawn.
- Dylai bod rheidrwydd ar Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi i fonitro safonau gwasanaethau Cymraeg heddluoedd Cymru fel rhan o'i ddyletswydd statudol.

3.8 Datganoli Cyfrifoldeb dros yr Heddlu i Gymru

Yn ei adroddiad blaenorol, argymhellodd y Pwyllgor na ddylai unrhyw benderfyniad i ailstrwythuro'r heddlu o ganlyniad i adroddiad *Closing the Gap* , fod yn niweidiol i unrhyw gynllun yn y dyfodol i ddatganoli cyfrifoldeb dros wasanaethau heddlu Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rydym am ailadrodd y neges hon.